# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Tachwedd 2021

Amser: 13.30 - 15.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12485

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Alun Davies AS |
| Tystion: | Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Claire Fife, Llywodraeth Cymru<br>Dylan Hughes, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Fox AS.

## 2 Rhaglen codau cyfraith Cymru a chynigion o ran hygyrchedd cyfraith Cymru: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad mewn perthynas â rhaglen codau cyfraith Cymru a chynigion o ran hygyrchedd cyfraith Cymru.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)086 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Adroddiad Rheol Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin a Dadansoddiad o Fframweithiau 2021

Nododd y Pwyllgor ddatganiad Llywodraeth Cymru ac adroddiad Llywodraeth y DU.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cyfarfod Gweinidogol pedairochrog ar Fframweithiau Cyffredin

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: SL(6)072 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

### 5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at yr holl Aelodau o'r Senedd.

### 5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i'w adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir).

### 5.5 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Rhaglen codau cyfraith Cymru a chynigion o ran hygyrchedd cyfraith Cymru: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a thrafododd sut y byddai'r dystiolaeth hon yn llywio'r broses o gynllunio gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) – trafod yr adroddiad drafft.

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), a chytunodd arno,

yn amodol ar fân ddiwygiadau. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau – Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Adeiladau. Cytunodd y Pwyllgor i drafod adroddiad drafft diwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, a'r prif bwyntiau y dylid eu cynnwys yn ei adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

## 11 Nodyn briffio ar gytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol: Confensiwn Trais ac Aflonyddu 2019 (Rhif 190);
- Y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Rheoli Dŵr Balast a Gwaddod Llongau;

a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau yn ystod y cyfarfod nesaf.

Yn ogystal, nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog mewn perthynas â Chonfensiwn y DU/Swistir ar gydlynu nawdd cymdeithasol, a chytunodd i dynnu'r llythyr hwnnw at sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.